


Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**HAPPEN – Rhwydwaith Iechyd a Chyrhaeddiad Disgyblion mewn Addysg Gynradd**

Annwyl Riant / Warchodwr,

Hoffwn edrych yn agosach ar les ein disgyblion ac, er mwyn gwneud hwn, byddwn yn gofyn i'r disgyblion gymryd rhan mewn astudiaeth a fydd yn edrych ar y berthynas rhwng eu hiechyd, lles a chyrhaeddiad addysgol.

**Beth yw pwrpas yr astudiaeth?** Bydd y data rydym yn ei gasglu gan yr holl blant sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth yn ein helpu i asesu iechyd, ffitrwydd a hapusrwydd y plant yn yr ysgol a'u lles a'u haddysg gyffredinol.

**Pam mae fy mhlentyn wedi cael ei ddewis?** Mae pob plentyn yn nosbarth eich plentyn, gan gynnwys eich plentyn, wedi'i wahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Os nad yw eich plentyn yn teimlo'n hapus ynglŷn ag unrhyw beth y gofynnir iddo ei wneud, gall stopio ar unrhyw adeg, heb ofni cael ei gosbi, a bydd yn cael ei atgoffa am hyn trwy gydol yr astudiaeth. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch am yr astudiaeth, cysylltwch ag unrhyw aelod o'r tîm gan ddefnyddio'r manylion uchod.

**Beth fydd yn digwydd i'ch plentyn os bydd yn cymryd rhan?** Gofynnir i'ch plentyn roi ei gydsyniad i lenwi holiadur ar-lein am ei iechyd, ei les a'i ffordd o fyw, a fydd yn cymryd tua 30 munud. Mae'r holiadur yn cael ei lenwi gyda'r athro dosbarth yn bresennol yn yr ystafell dosbarth. Efallai y bydd yr holiadur yn cael ei ailadrodd o fewn 12 mis er mwyn edrych ar newidiadau mewn iechyd a lles. Mae'r holiadur a ddefnyddir yn union yr un fath â'r holiadur sylfaenol. Hefyd, efallai y bydd ysgol eich plentyn yn gweld pa mor bell y gall eich plentyn redeg mewn chwe munud. Bydd hyn yn rhan o wers addysg gorfforol. Hoffem gynnwys y pellter rhedeg ar y cyd â holiadur eich plentyn (er mwyn gweld sut mae ffitrwydd, cyrhaeddiad yn yr ysgol a lles yn gysylltiedig mewn plant). Hefyd, byddwn yn defnyddio gwybodaeth eich plentyn er mwyn cysylltu data. Mae hyn yn golygu y bydd enw eich plentyn yn cael ei newid yn rhif a'i gofnodi mewn cronfa ddata ddienw. Caiff hyn ei wneud gan drydydd parti y gellir ymddiried ynddo: sef Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Pan fydd y wybodaeth yn y gronfa ddata ddienw, ni ellir olrhain y rhifau yn ôl i enwau'r plant. Gellir defnyddio'r gronfa ddata i ymchwilio i gofnodion eraill fel canlyniadau arholiadau a chofnodion meddyg. Ni fydd modd adnabod eich plentyn yn ystod y broses hon, a'r unig ffordd o weld y data

cyswllt yw fesul grŵp (er enghraifft, p'un a oedd y grŵp oedd yn gwneud ymarfer corff yn fwy iach na'r grŵp nad oeddent yn gwneud hynny).

**Beth yw anfanteision posibl cymryd rhan?** Bydd yr holiadur yn cael ei lenwi mewn modd sensitif mewn grŵp yn yr ystafell ddosbarth. Nid oes rhaid i'ch plentyn gymryd rhan yn yr holiadur os nad yw'n dymuno gwneud hynny. Cewch chi/eich plentyn eich atgoffa o'ch hawl i dynnu yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm, ar wahanol gamau yn yr astudiaeth.

**Beth yw manteision posibl cymryd rhan?** Gall cymryd rhan yn yr astudiaeth hon roi dealltwriaeth well i ni o effaith iechyd a lles ar addysg, ac annog ysgolion i gymryd rhan mewn mentrau ysgolion yn y dyfodol. Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn gallu bod yn brofiad pleserus i blant, a byddant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn holiadur cyffrous efallai nad ydyn nhw wedi cymryd rhan ynddo o'r blaen.

**A fydd fy mhlentyn sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth yn aros yn gyfrinachol?** Mae'r holl ddata rydym yn ei gasglu yn cael ei gadw'n breifat ac yn gyfrinachol; bydd enwau'r plant yn cael eu newid yn rhifau. Bydd unrhyw gopïau caled o'r data'n cael eu cadw mewn swyddfa ddiogel a bydd ffeiliau cyfrifiadurol ac unrhyw wybodaeth bersonol yn cael eu diogelu gan gyfrinair. Unigolion cyfrifol o'r tîm ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe yn unig fydd yn edrych ar y data a gesglir.

**Beth os oes gennyf unrhyw gwestiynau?** Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth, mae croeso i chi gysylltu ag unrhyw un o'r tîm ymchwil (gweler y manylion cyswllt isod). Ar ôl yr astudiaeth, os byddwch chi'n poeni am sut cafodd unrhyw agwedd ar yr ymchwil ei gynnal, cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor Moeseg yr Ysgol Feddygaeth ar: **sumsresc@swansea.ac.uk**

**Os nad ydych chi'n hapus i'ch plentyn gymryd rhan yn yr holiadur, gadewch i fi wybod erbyn hydref 18fed ar yr hwyraf os gwelwch yn dda.**

Diolch, Miss Passmore




**Ysgol Gymraeg Cwmbrân**

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**<u>HAPPEN – The Health and Attainment of Pupils in a Primary Education Network</u>**

Dear Parent / Guardian,

We would like to look closer at the pupils' well-being in the school and, in order to do so, we will be asking the pupils to take part in a study that will look at the relationship between health, well-being and educational attainment.

**1.What is the purpose of the study?** The data we collect from all of the children taking part in the study will help us assess the children's health, fitness, happiness in school and overall wellbeing and education.

**2.Why has my child been chosen?** All of the children in your child's class, including your child, have been invited to take part in the study. If your child does not feel happy about anything that they are asked to do, they can stop at any time.

**3.What will happen to your child if they take part?** Your child will be asked for their consent to complete an online questionnaire about their health, wellbeing and lifestyle, which will take about 30 minutes. The questionnaire is completed with their class teacher present in the classroom. The questionnaire may be repeated again within 12 months to look at changes in health and well-being. The questionnaire used is exactly the same as the baseline questionnaire. Your child's school may also see how far the children can run in 6 minutes. This will be within a PE lesson. We would like the distance ran to be included with the along with your child's questionnaire (so we can see how fitness, attainment in school, wellbeing are all related in children). We will also use your child's information for data linkage. This means that your child's name will be changed to a number and entered into an anonymous database. This is done by a trusted third party: the NHS Wales Informatics Service. Once in the anonymous database, numbers can not be tracked back to children's names. This database can be used to look into other records such as exam results and doctor's records. Your child cannot be identified during this process and all linked data can only be looked at by group (for example, whether a group of who were physically active had better health compared to the group who were not).

**4.What are the possible disadvantages of taking part?** The questionnaire will be completed sensitively in a group setting within the classroom. Your child does not have to take part in the questionnaire if they do not wish to do so. You/your child are reminded of your right to withdraw at any time, without giving any reason at various stages of the study.

**5.What are the possible benefits of taking part?** Taking part in this study can help improve our understanding of the impact of health and wellbeing on education, and encourage schools to take part in school-based initiatives in the future. Taking part in the research can be an enjoyable experience for children, and they will get to take part in an exciting questionnaire that they might not have taken part in before.

**6.Will my child taking part in the study be kept confidential?** All the data we collect will be kept private and confidential; the children's names will be changed to numbers. Any hard copies of the data will be kept in a secure office and computer files and any personal information will be password protected. The data obtained will only be looked at by responsible individuals of the research team from Swansea University.

**7.What if I have any questions?** If you have any questions about the study please don't hesitate to contact anyone from the research team (see contact details below). If after the study you are concerned about how any aspect of the research was conducted please contact the Chair of the School of Medicine Ethics Committee on: **sumsresc@swansea.ac.uk**

**If you don't want your child to take part in the study, please let me know by October 18th at the latest.**

Diolch / Thank you,
Miss Passmore